

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Hybiau Cynnes & Llecynnau Cymunedol

## Cip cyflym

**Mae tlodi tanwydd yn dal yn dipyn o her yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2022, yr amcangyfrif oedd fod hyd at 45% o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd, a bod 8% yn profi tlodi tanwydd difrifol. Gallai Cynghorau ystyried sefydlu hybiau cynnes yn eu cymunedau.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd hybiau cynnes a'r gefnogaeth maen nhw'n ei darparu. Maen nhw wedi cyhoeddi cyllid o £1.5 miliwn ar gyfer 2024, sy'n adeiladu ar yr hyn sydd ar gael yn barod gan hybiau mewn cymunedau a bydd yn helpu cefnogi canolfannau mewn sawl ffordd, yn amrywio o luniaeth a bwyd, i dalu am oriau agor ychwanegol, am weithgareddau fel sesiynau ymarfer a chelf neu ddysgu sgiliau newydd.

Gwybodaeth Ar-lein am Hybiau Cynnes Llywodraeth Cymru

## Meddwl am agor Hwb Cynnes?

**Ydych chi'n berchen ar adeilad cymunedol?** Meddyliwch am sut allai ddod yn **llecyn cymunedol bywiog** trwy bartneru gyda mudiadau eraill i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau i bobl leol. Mae ei drawsnewid yn "**hwb cynnes**" yn syniad gwych, yn enwedig er mwyn **helpu pobl i aros yn gynnes** a chadw cysylltiad yn ystod misoedd oerach. Gall gynnig **lle croesawgar i bobl ddod at ei gilydd, rhannu adnoddau, a chefnogi ei gilydd.**

## Manteision i'ch Cymuned

1. Darparu lle **cynnes, diogel a chysgodol** ar gyfer unigolion allai fel arall ei chael yn anodd i wresogi eu cartrefi yn ystod misoedd oerach.
2. Maen nhw'n aml yn cynnwys **amwynderau am ddim** fel diodydd poeth, byrbrydau, neu Wi-Fi, er mwyn lleihau costau byw eraill.
3. **Lleihau unigedd ac unigrwydd** trwy gynnig lle er mwyn i bobl allu cyfarfod, cymysgu, ac adeiladu perthnasoedd.
4. Bod yn **bwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau cefnogi eraill,** fel banciau bwyd, adnoddau iechyd meddwl, neu gyngor ariannol. Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwybodaeth am awgrymiadau arbed ynni, grantiau, neu raglenni cymorth lleol.
5. Mae llawer o hybiau'n **trefnu dosbarthiadau, gweithdai, neu weithgareddau hamdden** yn eu hybiau, er mwyn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a dysgu.

## Sefydlu Hwb Cynnes

- **Dewch o hyd i leoliad addas**, fel canolfan gymunedol, neuadd bentref, neu adeilad hygyrch arall
- Gofalwch fod y lleoliad a ddewiswch yn cynnwys **cyfleusterau hanfodol** fel gwresogi, seddi, cyfleusterau cegin, ac ystafelloedd ymolchi
- Gofalwch fod yr hwb yn **hygyrch i holl aelodau'r gymuned**, gan gynnwys pobl ag anableddau.
- **Recriwtiwch a hyfforddwch wirfoddolwyr** i helpu gyda gwaith beunyddiol yr hwb, a gofalwch fod staffio a chefnogaeth ddigonol ar gael.
- **Cynigiwch wasanaethau ychwanegol** fel prydau poeth, gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni, cyngor ar gael gafael ar fudd-daliadau, a gweithgareddau cymdeithasol i ychwanegu at werth yr hwb.
- **Hyrwyddwch yr hwb cynnes** trwy'r cyfryngau lleol, cyfryngau cymdeithasol, a rhwydweithiau cymunedol I sicrhau bod trigolion yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael.

**Trefnwch gasgliad/man casglu blancedi/cotiau gaeaf**

**Partnerwch gyda Cymru Gynnes i gynnig cefnogaeth a chyngor**

### Gweithgareddau Hwb Cynnes

Bingo
Gwau a Chlonc
Clybiau Digi
Coffi & Chacen
Gemau bwrdd
Clwb Llyfrau
Crefft
Coginio
Sied Dynion
Rhiant & Phlentyn
Clwb Ffilmiau
Dosbarthiadau Ymarfer

## Gwybodaeth Ddefnyddiol

Gall Pecynnau Gaeaf Gynnes gynnwys blanced, potel dŵr poeth, menig, het, sgarff, sanau, mwg teithio, padiau gwres

Mae'n hanfodol fod gwirfoddolwyr sy'n paratoi neu'n trin bwyd yn cael Hyfforddiant Hylendid Bwyd ac Ymwybyddiaeth Alergenau

### Deddfwriaeth & Grymoedd

Mae grymoedd i ddarparu hwb cynnes yn gwahaniaethu, gan ddibynnu ar sut mae'n cael ei weithredu a pha wasanaethau mae'n eu darparu.

**Gall grymoedd & chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor & arweiniad, efallai y bydd cynghorau am gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.**

admin@onevoicewales.wales

Gall **stigma** atal pobl rhag mynd i hybiau cynnes. Defnyddiwch enwau fel "Ystafelloedd Byw Cymunedol" neu "Lleoedd Croeso Cynnes". Tynnwch sylw at y gweithgareddau sydd ar gael & at y cyfle i gysylltu & bod yn gyfforddus, er mwyn eu gwneud yn fwy cynhwysol & chroesawgar i bawb.

Llecynnau Croeso Cynnes | Pecyn Hybiau Cynnes

## Datblygu Partneriaethau

- **Cydweithiwch gyda grwpiau cymunedol** lleol i wella a darparu gwasanaethau hanfodol.
- Rhowch wybod i'ch **cysylltwyr cymunedol** fod gennych le cynnes fel y gallant ddanfon eu cleientiaid draw.
- Datblygwch **gyfleoedd gwirfoddoli** i gefnogi'r bobl sy'n darparu'r gwasanaethau a'r gweithgareddau hyn.
- A oes unrhyw **fentrau trafnidiaeth gymunedol** yn eich ardal allai helpu pobl leol i ddefnyddio eich gwasanaeth?
- Gall Cynghorau Cymuned a Thref **ddarparu grantiau** i fudiadau eraill er mwyn iddynt allu cynnal neu wella'r ddarpariaeth bresennol.
- **Cysylltwch gydag asiantaethau/elusennau** i gynnig cyngor ac arweiniad.

## Enghreifftiau o Arfer Da

Rhwng Ionawr–Mawrth 2024 cefnogodd **Cyngor Tref Prestatyn** 1341 o drigolion gyda phrydau am ddim mewn lle cynnes

Mae **Cyngor Cymuned Llannon** yn partneru gyda'r Ganolfan Deuluoedd i ddarparu lle diogel i deuluoedd

Mae **Cyngor Cymuned Bedlinog & Trelewis** yn cynnig Cornel Glud mewn lleoedd gwahanol sy'n cynnwys gweithgareddau, bwyd twym & gwasanaethau cefnogi. Maen nhw'n darparu cludiant am ddim fel y gall pobl gyrraedd eu hybiau cynnes.

Gwnaeth **Cyngor Cymuned Aberporth** gais llwyddiannus am Gyllid Llywodraeth Cymru trwy eu Cymdeithas Wirfoddoli Sirol i gynnal hwb cynnes mewn partneriaeth â'r ganolfan leol.

Gwyliwch ein Hastudiaeth Enghreifftiol Un Llais Cymru gyda Chyngor Tref Prestatyn

Gwyliwch ein Gweminar Un Llais Cymru Cadw Cymunedau yn Gynnes

## Gwybodaeth Ariannu & Chyfleoedd Posib

Gwobrau i Bawb Y Loteri Genedlaethol

Sefydliad Cymunedol Cymru

Cyllido Cymru

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud Ceisiadau Effeithiol am Grantiau'**

### Eisiau Gwybod Mwy?

Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK